GWELLIANT CYMRU IMPROVEMENT CYMRU

GIG CYMRU NHS WALES

# Llwybr Safonau Dementia Cymru

## Ffrwd waith 1: Glasbrint ar gyfer Ymgysylltiad Cymunedol




# Nodau Gwelliant Cymru

**Er mwyn cyflawni ein nod, mae gennym dair blaenoriaeth strategol:**

- **Cefnogi sefydliadau iechyd a gofal i ail-ddylunio a gwella'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu yn barhaus.**
- **Cefnogi ffocws ar leihau niwed y gellir ei osgoi a diogelwch o fewn systemau gofal.**
- **Adeiladu gallu gwella yn gynaliadwy yn y system iechyd a gofal.**

# Fframwaith Cyflawni




Mae Fframwaith Cyflawni Gwelliant Cymru yn cynnig proses systematig, y gellir ei hailadrodd sy'n addasu i anghenion penodol pob cyd-destun rhanbarthol ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu, profi a rhannu syniadau. Mae'n ceisio cefnogi sefydliadau a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol i lywio'r camau mabwysiadu yn y camau cynnar hanfodol drwy alluogi profi a chyd-gynhyrchu gwelliannau. Mae'r fframwaith yn cefnogi cefnogi'r camau parodrwydd a gweithredu'r llwybr safonau dementia.


Gall rhanbarthau ddefnyddio'r fframwaith i alluogi ffocws ar gynllunio, ymgysylltu, profi a lledaenu a maint gwelliannau, gan geisio adeiladu gallu gwella mwy effeithiol ar draws y system sy'n integreiddio â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r fframwaith hefyd yn sicrhau cyfraniad dinasyddion ar lefel leol fel bod gwelliannau'n cael eu cyd-gynhyrchu ac yn cyflawni canlyniadau sy'n bwysig i ddinasyddion.

# Cyflwyniad

**Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ystod o gwestiynau hunanasesu sy'n cefnogi'r ffrydiau gwaith rhanbarthol wrth baratoi ar gyfer fframwaith cyflawni Llwybr Safonau Dementia Cymru, (rhaglen waith parodrwydd a gweithredu). Bydd y cwestiynau'n helpu pob ffrwd waith i baratoi, nodi meysydd ffocws, ynghyd â sicrhau bod cefnogaeth ar waith i fodloni gofynion allweddol ac ymrwymiad y rhanbarthau i gyflawni'r llwybr safonau dementia.**

Cymerwch rywfaint o amser i ateb y cwestiynau. Cofiwch fod y darn hwn o waith yn cefnogi arweinydd y ffrwd waith a'r aelodaeth i ddatblygu cynlluniau gweithredu, adolygu prosesau presennol a phenderfynu bod y rhanddeiliaid cywir yn cael eu cynrychioli.

Bydd yr ymatebion i'r cwestiynau yn helpu gydag adolygiad rheolaidd o'r cynnydd wrth symud ymlaen ac edrych yn ôl ac asesu cyflawniadau.




Mae'r diagram uchod yn dangos y ffrydiau gwaith cenedlaethol a lleol sy'n cefnogi'r bwrdd dementia rhanbarthol gyda pharodrwydd a gweithredu'r Llwybr Safonau Dementia Cymru gyfan. Mae pob ffrwd waith yn canolbwyntio ar ddetholiad perthnasol o safonau. Mae'r ffrydiau gwaith cenedlaethol ar waith i arweinwyr rhanbarthol ac aelodau'r ffrwd waith ymgysylltu â nhw, gan sicrhau bod ffocws ar ddysgu a rennir, cydgynhyrchu a datblygu adnoddau i wella gofal dementia ledled Cymru.

# 1. Meysydd Ffocws Ffrwd Waith 1

| | |
|---|---|
| **Safon 1** | Cam Un: ymgysylltu â'r gymuned gan ddefnyddio un ardal o fewn rhanbarth sy'n gweithio mewn partneriaeth, gan gymryd 6 mis. ‘sut beth yw gofal ac ymyrraeth dementia yn yr ardal hon’ |
| **Safon 2** | Bydd gwasanaethau yn y mannau cysylltu yn darparu addasiadau rhesymol i ofal. Mae’n cynnwys lleoliadau cymunedol a chleifion mewnol. |
| **Safon 13** | Bydd pobl sy’n byw gyda dementia yn cael mynediad, pan fydd angen, at wasanaethau perthnasol (a phan ddefnyddir gwasanaethau iechyd meddwl) penodol ar ôl diagnosis ni waeth ble maen nhw’n byw (wedi’u rhestru) e.e. ffisiotherapi, dieteteg. |
| **Safon 14** | Bydd gan bobl sy'n byw gyda dementia apwyntiad wyneb yn wyneb cyfredol lle cynhelir adolygiad iechyd corfforol mewn partneriaeth gan ofal sylfaenol ac eilaidd. |
| **Safon 18** | Bydd pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr / teuluoedd yn cael cefnogaeth a chymorth i ymgysylltu ag apwyntiadau |

# 2. Meysydd cysylltiedig i'w hystyried sy’n gysylltiedig â ffocws llif gwaith

| | |
|---|---|
| **Safon 3** | Mae Gwasanaethau Asesu Cof (MAS) a Gofal Sylfaenol (Meddyg Teulu) yn mabwysiadu codau READ i gofnodi diagnosis/nam gwybyddol ysgafn (MCI). Mae’n cynnwys cleifion mewnol. |
| **Safon 4** | Bydd Gwasanaethau Anabledd Dysgu yn diffinio proses i gofnodi cyfanswm y boblogaeth sy'n byw gydag Anabledd Dysgu a Syndrom Down yn benodol er mwyn cynnig archwiliad llesiant gwybyddol. |
| **Safon 5** | Dylai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ddarparu canlyniadau cyfres gytunedig o asesiadau ac ymyriadau a gwblhawyd wrth atgyfeirio i MAS (pan fydd yr angen yn dangos hynny). |
| **Safon 6** | Bydd Gwasanaethau Asesu Cof, o fewn cyfnod o 12 wythnos o'r adeg atgyfeirio, yn darparu ystod o ymyriadau i gefnogi diagnosis. Mae’n bosibl y bydd angen ystyried platfformau digidol ac addasiadau a dulliau eraill. |

| | |
|---|---|
| **Safon 7** | Bydd gweithiwr cyswllt ar gael i bobl a fydd yn gallu darparu cefnogaeth emosiynol drwy gydol y cyfnod asesu ac yn ystod y 48 awr nesaf ar ôl cael diagnosis, a sicrhau ei bod yn cael ei chynnig fel y bo'r angen ar ôl yr adeg hon |
| **Safon 8** | Bydd pobl sy'n byw gyda Nam Gwybyddol Ysgafn (MCI) yn cael cynnig dewis o wasanaethau cyfannol sy'n monitro eu hiechyd a'u lles corfforol a meddyliol. |
| **Safon 9** | O fewn 12 wythnos o gael diagnosis, bydd pobl sy'n byw gyda dementia yn cael cynnig addysg a gwybodaeth ynglŷn â phwysigrwydd gweithgareddau iechyd corfforol i gefnogi a hybu iechyd. |
| **Safon 10** | Bydd pobl sy'n byw gyda dementia, eu gofalwyr a'u teuluoedd yn cael cynnig dysgu, addysg a hyfforddiant sgiliau |
| **Safon 11** | Bydd Cymru yn mabwysiadu'r Siarter Ysbytai sy'n Deall Dementia a bydd y broses o'i gweithredu a'i chanlyniadau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. |
| **Safon 12** | Bydd gweithiwr cyswllt a enwyd (cysylltwr) yn cael ei neilltuo i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr i gynnig cymorth, cyngor a chyfeirio, drwy gydol ei daith o ddiagnosis i ddiwedd oes. |
| **Safon 15** | O fewn 12 wythnos o gael diagnosis o ddementia, bydd pobl yn cael cynnig cymorth i ddechrau cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys gofal diwedd oes. |
| **Safon 16** | Bydd sefydliadau a lleoliadau gofal sy'n darparu gofal dementia dwys (mae hyn yn cynnwys lleoliadau cleifion mewnol iechyd meddwl ac anableddau dysgu) yn darparu Mapio Gofal Dementia mewn ymarfer arferol. |
| **Safon 17** | Bydd pob aelod o staff sy'n darparu gofal ar bob lefel ym mhob disgyblaeth a lleoliad yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn dysgu a datblygu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gyda chymorth i roi hynny ar waith mewn arferion dyddiol. |
| **Safon 19** | Bydd gwasanaethau'n sicrhau pan fydd yn rhaid i unigolyn sy'n byw gyda dementia newid / symud rhwng unrhyw leoliadau neu wasanaethau, bydd gofal yn cael ei gydlynu'n briodol i alluogi'r unigolyn i ystyried ac addasu i'r amgylchedd newydd |
| **Safon 20** | Gan weithio mewn partneriaeth, bydd y rhanbarth yn cyflawni gofynion yr eitemau data y cytunwyd arnynt (llyfr gwaith mesur (llawlyfr)) ar gyfer adrodd a sicrwydd. |

# 3. Cwestiynau i'r ffrydiau gwaith eu hystyried

**Gall y set hon o gwestiynau eich helpu i baratoi, gan sicrhau bod gennych yr holl brosesau, aelodaeth ac adnoddau angenrheidiol ar waith i gefnogi’r ffrwd waith hon. Mae'r cwestiynau isod i'w hystyried..**

1. Oes gennych chi arweinydd/arweinwyr ar gyfer ffrwd waith dementia 1 – pwy ydyn nhw ac os oes gennych chi fwy nag un, sut y gallan nhw gydweithio?

2. Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn ymgysylltu, yn cymryd rhan ac yn cydgynhyrchu ym mhob cam o'r gwaith hwn?

3. Ydych chi wedi ymgysylltu â'ch tîm Gwella / Trawsnewid Ansawdd neu wedi nodi unigolion i helpu gyda'r safonau sy'n gysylltiedig â'ch llif gwaith. Sut maen nhw'n mynd i'ch cefnogi chi?

    - Pwy sy’n gallu cael yr arweinwyr Gwella / Trawsnewid Ansawdd i gymryd rhan a sut i fynd o’i chwmpas hi?

    - A oes unrhyw un arall o fewn y timau, y sefydliadau a’r systemau a allai fod â sgiliau a phrofiad mewn Gwella Ansawdd?

4. Pwy ddylai fod yn rhan o'r ffrwd waith? Oes gennych chi'r aelodaeth gywir i sicrhau bod y meysydd ffocws yn cael eu darparu o fewn y safonau? Gall aelodau ddod o ystod eang o gynrychiolwyr — gweler y ddogfen Canllaw Cyffredinol i Ffrydiau Gwaith Cenedlaethol a Rhanbarthol i gael arweiniad pellach.

5. A oes gennych dempled adrodd a mecanweithiau i gefnogi adborth i'ch bwrdd dementia rhanbarthol (lle bydd y cyfrifoldeb am y safonau dementia)?

6. Sut y byddwch yn cysylltu â llif gwaith a meysydd eraill er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y safonau a'r darnau eraill o waith a allai ddylanwadu'n uniongyrchol ar eich gwaith llif gwaith neu fod yn gysylltiedig â hynny?

7. Pa mor aml y byddwch chi'n cwrdd fel llif gwaith? Wrth ystyried hyn, byddwch yn ymwybodol y gallai fod angen gweithgorau arnoch hefyd i gefnogi manylion y ffrwd waith. Bydd y rhain yn cael eu nodi wrth i chi weithio drwy'r safonau a dechrau drilio i lawr i'r manylion.

8. A oes gan eich ffrwd waith ddatganiad pwrpas, gwerthoedd a chredoau a rennir? Hoffech chi gael cefnogaeth gan Welliant Cymru i greu datganiad pwrpas, gwerthoedd a chredoau a rennir? Efallai fod hwn yn fan cychwyn da i gefnogi gweithio mewn partneriaeth a llywio'r gwaith.

9. Pa gymorth pellach sydd ei angen arnoch fel ffrwd waith i gefnogi'r rhaglen safonau?

# 4. Adrodd ac adborth

1. I bwy y bydd arweinwydd/arweinwyr y ffrwd waith yn adrodd? A oes strwythur a llinell gyfathrebu glir?
2. Pa rwydweithiau fydd yn derbyn adroddiadau a diweddariadau? Sut ydych chi'n mynd i roi adborth i rwydweithiau eraill?
3. Pa mor aml y byddwch yn rhoi adborth ar eich cynnydd i'r bwrdd dementia, y bwrdd partneriaeth rhanbarthol a rhwydweithiau eraill?
4. A oes rhywun sy'n gyfrifol am y ffrwd waith hon yn eistedd ar y bwrdd dementia neu'r bwrdd partneriaeth rhanbarthol?
5. A oes gennych gynrychiolwyr sy'n mynychu'r ffrydiau gwaith cenedlaethol, cyfarfodydd, rhwydweithiau a chymuned ymarfer?
6. Ystyriwch pa gymorth sydd ei angen arnoch.

# 5. Cyfathrebu a chyhoeddi

1. Oes gennych chi gynrychiolydd cyfathrebu sy'n cysylltu â'r llif gwaith? Oes gennych chi gynllun cyfathrebu?
2. Sut y byddwch chi'n mynd ati i roi cyhoeddusrwydd i waith y ffrwd waith a'r safonau ar gyfer:<br>a) Y cyhoedd b) Sefydliadau c) Y gweithlu?
3. Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn cael eu cynnwys, yn cymryd rhan ac yn cyd-gynhyrchu ym mhob cam o'r gwaith hwn?
4. A fyddwch yn gallu hyrwyddo'r safonau ar wefannau (iechyd, ALl, trydydd sector, eraill) ac mewn unrhyw fathau eraill o gyfathrebu sydd gennych?
5. Sut ydych chi'n rhannu arferion da ar draws eich rhanbarth a byrddau partneriaeth rhanbarthol eraill?
6. Pa gymorth sydd ei angen arnoch?
7. Ystyried datblygu dull tasglu rhanbarthol i rannu, cyfathrebu a gweithredu'r ffrwd waith

# 6. Gweithgareddau ar gyfer arweinydd y ffrwd waith ac eraill i'w hystyried i lywio'r rhaglen waith

1. Cysylltu a chael gwybod mwy am y meysydd gwasanaeth/cymunedau sy'n gysylltiedig â'r safon e.e. grwpiau a gwasanaethau cymunedol, gwasanaethau a lleoliadau ysbytai, iechyd meddwl, anabledd dysgu, gwahanol ddisgyblaethau ac adrannau.

2. Deall seilwaith, gwasanaethau a systemau ysbytai ac yn y gymuned sy'n ymwneud â'r safonau. I wneud hyn, efallai y byddwch am ystyried y canlynol:

    - Cwrdd â thimau, partneriaid a sefydliadau i ddeall y broses, y diwylliant a'r systemau
    - Cysylltu â phobl sy'n derbyn ac yn darparu'r gwasanaeth i gael gwybod am eu profiad
    - Dadansoddi gwybodaeth a data sydd eisoes ar gael o'r meysydd gwasanaeth, y clystyrau, a'r sefydliadau sy'n ymwneud â'r ysbytai a'r gymuned rydych yn gweithio gyda nhw
    - Penderfynu yr hyn rydych chi'n ei wybod a'r hyn nad ydych chi'n ei wybod
    - Ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu â chymuned yr ysbyty — pobl a grwpiau
    - Defnyddio ystod o offer gwella megis mapiau proses (mapiwch yr ardaloedd rydych chi'n gwybod eu bod yn broblemus). Efallai y bydd siartiau Pareto yn eich helpu i nodi ble i ganolbwyntio gweithgarwch gwella, diagramau 'driver' i ganolbwyntio a chynhyrchu syniadau
    - Cynllunio a chyd-gynhyrchu gyda'r holl bartneriaid i gyflawni'r nodau a nodwyd
    - Ymgymryd ag ymarfer gwerthoedd a chredoau llif gwaith — bydd hyn yn pennu'r ffrydiau gwaith a rennir ac unrhyw safbwyntiau gwahanol o fewn yr aelodaeth.

# 7. Arall

1. Ydych chi'n gweld unrhyw risgiau, a oes gennych unrhyw bryderon, neu a oes gennych unrhyw gwestiynau? Defnyddiwch yr arweinwyr cenedlaethol a'r ffrydiau gwaith i gael cymorth a chyngor.

2. Ydych chi eisoes yn gweithredu unrhyw fentrau sy'n deall dementia? E.e. gwirfoddolwyr gofal dementia, technoleg TG, cymorth technoleg ac ati.

3. A yw pobl yn gwybod am unrhyw fentrau sy'n deall dementia, a ydych chi'n gwybod effaith y mentrau hyn - sut allwch chi adeiladu arnyn nhw, a ydyn nhw'n gysylltiedig â'r llif gwaith hwn?